BUSNES A RHEOLI

Ar ôl graddio mewn Busnes a Rheoli, fel arfer byddwch:

- Yn gallu dangos dealltwriaeth o sefydliadau, yr amgylchedd allanol y maen nhw'n gweithredu ynddo, sut mae eu rheoli, ac anghenion sefydliadau yn y dyfodol.
- Yn meddu ar sgiliau dadansoddi a synthesis meddwl beirniadol, gan gynnwys gallu nodi rhagdybiaethau, gwerthuso datganiadau, canfod rhesymeg ffug, nodi gwerthoedd ymhlyg, diffinio termau'n ddigonol a chyffredinoli'n briodol.
- Yn gallu datrys problemau a gwneud penderfyniadau yn effeithiol, gan ddefnyddio sgiliau meintiol ac ansoddol priodol, a chreu, gwerthuso ac asesu opsiynau, yn ogystal â gallu cymhwyso syniadau a gwybodaeth i amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- Yn cyfathrebu'n effeithiol, gan ddefnyddio TGCh ac amrywiaeth o gyfryngau a ddefnyddir yn eang mewn busnes, er enghraifft, adroddiadau busnes.
- Yn meddu ar sgiliau rhifedd a sgiliau meintiol, gan gynnwys modelu a dadansoddi, dehongli ac allosod data.
- Yn rheoli'ch amser, eich ymddygiad, eich cymhelliant, eich arloesedd a'ch menter eich hun.
- Yn dangos archwaeth am ddysgu myfyriol, ymaddasol a chydweithredol.
- Yn hunanymwybodol, yn sensitif ac yn agored i amrywiaeth pobl, diwylliannau, busnes a materion rheoli.
- Yn meddu ar sgiliau arwain, adeiladu tîm, dylanwadu a rheoli prosiect.
- Yn effeithiol wrth wrando, cyd-drafod a pherswadio.
- Yn gallu ymchwilio i faterion busnes a rheoli.
- Yn gallu ymdrin â materion ar lefelau Ewropeaidd a rhyngwladol.

Cipolwg ar Fusnes a Rheoli

Mae rhaglenni gradd busnes a rheoli cyffredinol yn canolbwyntio ar astudio sefydliadau, eu rheolaeth a'r amgylchedd allanol newidiol maen nhw'n gweithredu ynddo, paratoi ar gyfer a datblygu gyrfa mewn busnes a rheoli a gwella sgiliau dysgu gydol oes a datblygiad personol er mwyn cyfrannu at y gymdeithas yn gyffredinol.

Sources:

Mae'r rhaglenni gradd hyn yn astudio busnes a rheoli mewn ffordd eang, dadansoddol ac integredig. Disgwylir i raddedigion allu arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o farchnadoedd, cwsmeriaid, cyllid, pobl, gweithredoedd, systemau gwybodaeth, TGCh a pholisi busnes a strategaeth yn ogystal â materion cyfoes a threiddiol fel arloesedd, e-fasnach, menter, rheoli gwybodaeth, cynaliadwyedd, globaleiddio a moeseg busnes.